# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## 2il Gyllideb Atodol - 2023/24

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Mae'r cyflwyniad o'r Gyllideb Atodol hwn wedi'i baratoi yn unol â Rheolau Sefydlog 18A.2 a 20.36 Senedd Cymru (dyddiedig Medi 2023).

### Crynodeb

Cynigir yr amrywiadau canlynol i'r cynnig cyllideb blynyddol:

- **Gostyngiad o £108k** o ganlyniad i setlo'r dyfarniad cyflog am swm llai na'r swm a oedd wedi'i gynnwys yn ein Cyllideb Atodol gyntaf;
- Cynnwys incwm ychwanegol a gwariant cyfatebol (£4k) i adlewyrchu cytundeb secondiad wedi'i ddiweddaru gyda Chymdeithas yr Ombwdsmon sy'n cynnwys un aelod o staff; a
- Cynnwys incwm ychwanegol a gwariant cyfatebol (£15k) i adlewyrchu secondiad newydd aelod o staff OGCC i Gomisiwn y Senedd, o fis Ionawr 2024. Mae'r gwariant i gwrdd â'r gost o ôl-lenwi'r swydd.

### Diweddariad ar Ddyfarniad Cyflog 2023/24

Pan gyflwynom ein Cyllideb Atodol gyntaf, roedd y dyfarniad cyflog yn ansicr, ond roedd yn glir y byddai'n fwy na'r swm a oedd wedi'i gynnwys yn ein cyllideb gychwynnol. Ceisiom gyllid ar gyfer ein hamcangyfrif o gost y dyfarniad cyflog, ar y ddealltwriaeth pe bai'r dyfarniad cyflog gwreiddiol yn is, na fyddai'r swm cyfatebol yn cael ei dynnu allan neu'n cael ei ddychwelyd heb ei wario.

Mae'r dyfarniad cyflog bellach wedi'i setlo, gyda chynyddiadau yn amrywio o 8.6% ar gyfer staff is i 3.88% ar gyfer staff uwch. Mae'r cynnydd cyfartalog ychydig dros 5.4%. Mae hynny'n golygu na fydd arnom angen y swm llawn a nodwyd yn ein cyllideb atodol flaenorol a'n bod yn dychwelyd y balans o £108,000 (fel y dengys isod) yn y gyllideb atodol hon.

| Cost y dyfarniad cyflog: | Cyllideb Atodol Gymeradwy - dyfarniad cyflog amcangyfrifedig o 7.9% | Y dyfarniad cyflog gwirioneddol 5.4% | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Wedi'i gynnwys yng nghyllideb wreiddiol OGCC (3%) | £130,000 (3%) | £130,000 (3%) | £0 |
| Cyllideb ychwanegol | £213,000 (+4.9%) | £105,000 (+2.4%) | -£108,000 |
| **Cyfanswm y gost** | **£343,000** | **£235,000** | **-£108,000 (i'w ddychwelyd)** |

## Secondiadau Staff

Mae gennym aelod o staff yn gweithio’n rhan-amser i Gymdeithas yr Ombwdsmyn ar sail secondiad, ac adnewyddwyd y contract ar gyfer hyn ym mis Medi 2023. Mae hyn wedi arwain at gynnydd bychan mewn incwm, i adlewyrchu cynnydd cyfatebol mewn costau (£4k o incwm a £4k o wariant). Effaith net hyn yw dim.

Bydd aelod arall o staff yn cael ei secondio i Gomisiwn y Senedd am 12 mis o fis Ionawr 2024. Bydd hyn yn arwain at incwm ychwanegol o £15k ar gyfer 2023/24. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnwys cynnydd yn ein hincwm i adlewyrchu'r newid hwn. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn mynd i gostau staff ychwanegol o £15k i ôl-lenwi'r swydd wag y mae hyn yn ei chreu. Felly dim yw effaith net y secondiad newydd hwn.

Effaith gyfunol y ddau newid hyn sy'n deillio o secondiadau staff yw cynyddu gwariant ac incwm gan £19k.

| 2il Gyllideb Atodol 2023/24 | £000s | | |
|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif 2023/24 ar ôl yr Atodiad 1af | Newidiadau | Amcangyfrif Diwygiedig |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 4,725 * | (89) | 4,636 |
| Eiddo a chyfleusterau | 171 | | 171 |
| Ffioedd proffesiynol | 244 | | 244 |
| Costau TG | 250 | | 250 |
| Costau swyddfa | 108 | | 108 |
| Teithio, hyfforddi a recriwtio | 40 | | 40 |
| Cyfathrebu | 65 | | 65 |
| Buddsoddiad ymrwymedig mewn gwella gwasanaeth | 47 | | 47 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **5,650** | **(89)** | **5,561** |
| Cyfanswm Incwm | (19) | (19) | (38) |
| **Gwariant Refeniw Net** | **5,631** | **(108)** | **5,523** |
| Buddsoddi mewn gwella gwasanaeth - Gwariant Cyfalaf | 5 | | 5 |
| Cyfanswm yr Adnoddau Gofynnol | **5,636** | **(108)** | **5,528** |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 70 | | 70 |
| Dibrisiant – asedau wedi'u prydlesu | 222 | | 222 |
| Tâl llog – asedau wedi'u prydlesu | 7 | | 7 |
| AME Cyfalaf - dadfeiliadau | 28 | | 28 |
| **Cyfanswm Gwariant Adnoddau** | **5,963** | **(108)** | **5,855** |
| Dibrisiant ac amorteiddio | (70) | | (70) |
| Dibrisiant – asedau wedi'u prydlesu | (222) | | (222) |
| Tâl llog – asedau wedi'u prydlesu | (7) | | (7) |
| AME Cyfalaf - dadfeiliadau | (28) | | (28) |
| Newid mewn cyfalaf gweithio | 198 | | 198 |
| Symudiadau eraill nad ydynt yn arian parod | 20 | | 20 |
| **Gofynion Arian Parod gan WCF** | **5,854** | **(108)** | **5,746** |

* Nodyn: Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth lawn ar gyfer y dyfarniad cyflog amcangyfrif, y cytunwyd arno fel rhan o'r gyllideb atodol flaenorol.